# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Grŵp Trawsbleidiol Teitl:** | Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y Sector Gweithgareddau Awyr Agored |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Rhagfyr 2021 |
| **Lleoliad:** | Dros Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Huw Irranca-Davies (HI-D) | Cadeirydd - Aelod o'r Senedd |
| Sam Rowlands (SR) | Is-gadeirydd - Aelod o'r Senedd |
| Cefin Campbell (CC) | Is-gadeirydd - Aelod o'r Senedd |
| Paul Donovan (PD) | Ysgrifenyddiaeth - Cynghrair Awyr Agored Cymru a Cymdeithas Twristiaeth Antur Cymru Cynrychiolydd |
| Vaughan Gething (VG) | Gweinidog yr Economi |
| Janet Finch-Saunders (JF-S) | Aelod o'r Senedd |
| Zak Weaver (ZW) | Swyddfa Sam Rowland |
| Jess Williams (JW) | Aelod Sylwedydd - Chwaraeon Cymru<br><br>Cynrychiolydd |

| | |
|---|---|
| Rebecca Brough (RB) | Aelod - Cynrychiolydd Cerddwyr Cymru |
| Gethin Thomas (GT) | Aelod - Cymdeithas Ogofa Prydain<br><br>Cynrychiolydd Pwyllgor Cymwysterau |
| Paul Airey (PA) | Aelod - y Bartneriaeth Awyr Agored<br><br>Cynrychiolydd |
| Paul Frost (PF) | Aelod - y Bartneriaeth Awyr Agored<br><br>Cynrychiolydd |
| Tracey Evans (TE) | Aelod - y Bartneriaeth Awyr Agored<br><br>Cynrychiolydd |
| Gwenda Owen (GO) | Aelod - Cynrychiolydd Beicio'r DU |
| Paul Renfro (PR) | Aelod - Siarter Awyr Agored Sir Benfro Grŵp a Fforwm Arfordirol Sir Benfro Cynrychiolydd |
| Andy Taylor (AT) | Aelod - Diwydiant Gweithgareddau Antur Pwyllgor Ymgynghorol a Woodcraft Folk Cynrychiolydd |
| Mike Rosser (MR) | Aelod - Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored<br><br>Panel a Chynrychiolydd Adventure UK |

| | |
|---|---|
| Alison Roberts (AR) | Aelod Sylwedydd - Cynrychiolydd Cyfoeth<br><br>Naturiol Cymru |
| Matthew Williams (MW) | Aelod - Cymdeithas Chwaraeon Cymru<br><br>Cynrychiolydd |
| Steven Morgan (SM) | Aelod - Cynrychiolydd Plas Menai |
| Steve Rayner (SRa) | Aelod - Gweithgaredd Awyr Agored De Cymru<br><br>Cynrychiolydd Grŵp Darparwyr |

| | |
|---|---|
| Emma Edwards-Jones (EE-J) | Aelod - Cynrychiolydd Eryri-Bywiol |
| Catherine Williams (CW) | Aelod - Cynrychiolydd Eryri-Bywiol |
| Neal Anderson (NA) | Aelod - Valley Training & Consultancy<br><br>Cynrychiolydd |
| Kathryn Stewart (KS) | Aelod - Cymdeithas Ceffylau Prydain yng Nghymru<br><br>Cynrychiolydd |
| Eben Muss (EM) | Aelod - Cyngor Mynydda Prydain<br><br>Cynrychiolydd Cymru |
| Emma Richards (ER) | Aelod - Cynrychiolydd yr Urdd |
| Amanda Smith (AS) | Aelod - Canolfan y Dechnoleg Amgen |
| Gerwyn Owen (GeO) | Aelod - Cynrychiolydd Cymru'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol<br><br>Cynrychiolydd |
| Hayley Sharp (HS) | Aelod - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br><br>Cynrychiolydd yr Awdurdod |
| Jethro Moore (JM) | Aelod - Siarter Arfordiro Cenedlaethol<br><br>Cynrychiolydd |
| Kate Ashbrook (KA) | Aelod - Cymdeithas y Mannau Agored<br><br>Cynrychiolydd |
| Ric Potter (RP) | Aelod - Tywyswyr Mynydd Prydain<br><br>Cynrychiolydd |
| Ryland Doyle (RD) | |
| Steffan Roberts (SRo) | Aelod Sylwedydd - Croeso Cymru<br>Cynrychiolydd |

| | |
|---|---|
| | |
| Sue Williams (SW) | Aelod Sylwedydd - Cynrychiolydd Cyfoeth<br><br>Naturiol Cymru |
| Tom Sharp (TS) | Aelod - Cymdeithas Chwaraeon Cymru<br><br>Cynrychiolydd |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Rhun ap Iorwerth | Aelod o'r Senedd |
| Arwel Elias (AE) | Aelod - Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored<br><br>Cynrychiolydd Panel |
| Craig Armigar (CA) | Aelod - y Sefydliad Dysgu Awyr Agored<br><br>Cynrychiolydd Cymru |
| Andrew Denton (AD) | Aelod - Cymdeithas Diwydiannau Awyr Agored<br><br>Cynrychiolydd |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

**Agenda, nodiadau a chamau gweithredu**

**1. Croeso, cyflwyniadau, ac ymddiheuriadau**

Croesawodd HI-D (y Cadeirydd) bawb a oedd yn bresennol, gan gynnwys Vaughan Gething (Gweinidog yr Economi) ac amlinellodd yr agenda ar gyfer y cyfarfod. Nodwyd yr ymddiheuriadau.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a chamau gweithredu**

Cadarnhaodd PD fod y cofnodion wedi'u hanfon at aelodau'r grŵp yn dilyn y cyfarfod blaenorol ar 15 Gorffennaf 2021 ac eto heddiw. Gofynnodd HI-D i aelodau'r grŵp gadarnhau bod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod. Cadarnhaodd PA hyn,

gydag SR yn eilio. Felly, cytunwyd ar y cofnodion. Mae'r holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi’u cymryd neu byddant yn cael eu cynnwys yn y camau gweithredu ar ôl y cyfarfod heddiw.

**3. Gair o gyflwyniad gan VG**

Gwnaeth VG gydnabod ei ddiddordeb mawr yn y sector awyr agored, nid yn unig drwy bwysleisio’r buddion economaidd sy’n gysylltiedig â’r sector awyr agored ond hefyd y manteision iechyd a llesiant o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Aeth VG ymlaen i dynnu sylw at asedau Cymru (Llwybr Arfordir Cymru, yr arfordir a’r dirwedd), gan nodi ei fod yn awyddus i hyrwyddo gweithgareddau antur cynaliadwy ochr yn ochr â Croeso Cymru i sicrhau dyfodol hirdymor i'r sector awyr agored.

Diolchodd HI-D i VG am ei sylwadau, gan gydnabod hefyd gwerth grwpiau trawsbleidiol fel hyn lle mae sgyrsiau'n gallu parhau y tu hwnt i’r gyfarfodydd ffurfiol.

**4. Cyflwyniad gan Neal Anderson a Paul Renfro - Pwy a beth yw'r sector awyr agored a beth yw gwerth economaidd a gwerth cymdeithasol y sector awyr agored - gorffennol, presennol a’r dyfodol**

**Neal Anderson**

- Ymgynghorydd Dysgu Awyr Agored yn arbenigo mewn prosiectau proffesiynol a sector gyfan ar gyfer y Sefydliad Dysgu Awyr Agored (SDAA) gan gynnwys cymwysterau ar gyfer y gweithlu a phrentisiaethau; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; cydnabyddiaeth broffesiynol; diffinio dysgu yn yr awyr agored.

- Cyd-awdur y Model Ymyriadau Iechyd Meddwl Awyr Agored (2019) a Datganiad Arfer Da cysylltiedig yr SDAA a chyd-ymchwilydd a gyllidwyd gan Rwydwaith MARCH i ddangosyddion cynaliadwyedd yr amgylchedd naturiol yn yr awyr agored ac iechyd meddwl.

**Paul Renfro**

- Rheolwr Rhaglen ar ran Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn canolbwyntio ar brosiectau lle mae datblygu cynaliadwy, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu yn berthnasol drwyddi draw.
- Yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu’r sector gweithgareddau awyr agored mewn modd cyfrifol, gan rannu arfer da ar lefel ranbarthol drwy Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro ac ar lefel genedlaethol drwy Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru.

Cyflwynodd HI-D NA a PR i'r grŵp a throsglwyddo’r awenau iddynt ar gyfer eu cyflwyniad. Roedd cyflwyniad NA yn canolbwyntio ar natur luosog yr awyr agored: hamdden, dysgu, tirwedd, twristiaeth a chyflogaeth. Wrth wneud hynny, cydnabuwyd yr ystod o unigolion, sefydliadau a busnesau sy'n rhan o’r sector a’r ffordd maent i gyd yn cysylltu.

Roedd cyflwyniad PR yn canolbwyntio ar werth economaidd a gwerth cymdeithasol gweithgareddau antur, gan gyfeirio at ganfyddiadau gwaith ymchwil gan Millar a wnaed yn 2014. Cafwyd cydnabyddiaeth bod y canfyddiadau wedi dyddio erbyn hyn, gan nodi bod yn rhaid i'r sector ddeall ei werth yn 2021/22 er mwyn iddo allu ffocysu'n strategol ar y dyfodol. Nododd PR werth a manteision gweithgareddau antur: iechyd a lles, manteision cymdeithasol, addysg a dysgu gydol oes, yn ogystal â bod yn ysbrydoledig, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer hunanddatblygiad a chynnal a gwarchod ein hamgylchedd naturiol. Aeth PR ymlaen i dynnu sylw at yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu yn ogystal â'r cyfleoedd. I alluogi'r sector i fabwysiadu dull strategol a chynaliadwy sy'n seiliedig ar wybodaeth ac sy'n cydnabod ac yn cataleiddio'r cyfraniad y mae'r sector yn ei wneud at adferiad gwyrdd yng Nghymru, nododd fod angen cydnabod a deall effaith economaidd bresennol y sector ac ystyried gwerth cymdeithasol y gweithgareddau hyn yng Nghymru. Daeth PR i'r casgliad y bydd cyflawni hyn yn amlygu pwysigrwydd a pherthnasedd y sector, gan gydnabod yn llawn ei gyfraniad i economi Cymru.

Caiff copi o'r cyflwyniadau ei atodi at y cofnodion.

Diolchodd HI-D i NA a PR am eu cyflwyniadau a rhoddodd gyfle cychwynnol i VG wneud rhai sylwadau cyn y drafodaeth a'r cwestiynau.

Roedd VG yn cydnabod yr heriau cyffredin y mae llawer o sectorau yn eu hwynebu; hynny yw, llafur a sgiliau a'r angen i annog cyfleoedd gyrfa nad ydynt yn cael eu hystyried yn dymhorol. Hefyd, nododd VG y dylai'r 2 flynedd ddiwethaf o safbwynt profiadau ysgolion a phobl ifanc gynnig cyfle i fusnesau, a'r ffordd yr ymatebir i'r cyfleoedd hyn a'r ffordd y mae busnesau'n buddsoddi yn y cyfleoedd sy'n bwysig. Roedd VG yn cydnabod yr angen i gydweithio i dyfu'r sector awyr agored mewn ffordd gynaliadwy a gorffennodd drwy nodi ei fod yn edrych ymlaen at weithio ar y cyd â Dawn Bowden, ei Ddirprwy Weinidog.

Gofynnodd HI-D gwestiwn i VG ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig ag ehangder y sector awyr agored a beth yw'r ffordd orau o gyfleu hyn i Lywodraeth Cymru. Er ei bod yn heriol neilltuo amser gweinidogol ar gyfer materion penodol, nododd VG y byddai'n dal yn werth cysylltu â'r Gweinidogion hynny sy'n gyfrifol am y gwahanol feysydd perthnasol - hynny yw, iechyd a llesiant, addysg, yr economi, twristiaeth, yr amgylchedd ac ati - i

nodi llae mae’r meysydd hyn yn gorgyffwrdd â’r sector awyr agored, gan bwysleisio gwerth y sector hwn a nodi manteision gweithio ar draws adrannau’r Llywodraeth (gweler Cam Gweithredu 1 isod). .

Diolchodd HI-D i VG am ei amser, gan gydnabod ei fod yn debygol o orfod gadael cyn diwedd y cyfarfod. Cyn gofyn am gwestiynau/sylwadau gan aelodau’r grŵp, nododd HI-D fod angen diweddaru canfyddiadau adroddiad Millar o 2014, a gofynnodd sut y gellid cyflawni hyn a phwy fyddai’n gallu gwneud gwaith ymchwil sy’n ymdrin â gwerth economaidd a gwerth cymdeithasol y sector awyr agored yng Nghymru.

Mae’r sylwadau isod yn adlewyrchu’r pwyntiau a godwyd yn y blwch sgwrsio ac ar lafar yn ystod y cyfarfod

Nododd AT werth economaidd a chymdeithasol y sector gwirfoddol a'r cyfraniad y mae'r sector hwn yn ei wneud, gan gydnabod gwaith cymunedau lleol yn eu hardaloedd, yn ogystal â'r manteision cysylltiedig o safbwynt y Gymraeg ac ymgysylltu â phobl ifanc.
Nododd RB mai'r her enfawr sy'n tanlinellu hyn oll yw ansawdd y mynediad ar lawr gwlad, gan amlygu mai hawliau tramwy cyhoeddus yw'r ffordd i mewn i'r dirwedd ar gyfer llawer o weithgareddau, ac eto mae'r rhwydwaith o dan bwysau oherwydd diffyg adnoddau a gorfodaeth. Aeth RB ymlaen i ddweud ei bod yn debygol y bydd y cyfle y mae'r cynllun rheoli amaethyddol newydd yn ei gynnig yn cael ei golli oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau angenrheidiol fel bod sicrhau mynediad yn hanfodol i gydymffurfio â'r cynllun newydd. Ategwyd y pwyntiau hyn gan nifer o aelodau'r grŵp, gan gynnwys EM, JM, GO a SRa, gyda chefnogaeth ar gyfer cynnwys mynediad fel maen prawf ar gyfer cydymffurfio â'r cynllun rheolaeth amaethyddol. Nodwyd ei bod yn hanfodol bod tirfeddianwyr yn cael eu cymell i gynnal lefelau mynediad presennol yn ogystal â gwella mynediad. Tynnodd GO sylw at yr angen i fod yn ymwybodol o fwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu mynediad fel rhan o'r diwygiadau yn y maes hwn. Nododd HI-D y gall grwpiau trawsbleidiol godi materion allweddol yn uniongyrchol â Gweinidogion (gweler Cam Gweithredu 1 isod).

Nododd KA ei bod hi'n defnyddio Cymru fel enghraifft o sut y dylid gwneud pethau wrth siarad â chydweithwyr o Loegr ac y byddai'n siomedig pe na bai'n gallu defnyddio Cymru fel enghraifft yn yr achos hwn. Aeth KA ymlaen i ganolbwyntio ar yr angen i ymchwilio i werth economaidd a buddion y rhwydweithiau hawliau tramwy ledled Cymru. Eto, mae'r gwaith ymchwil a wnaed yn y maes hwn wedi dyddio, felly byddai'n sicr yn fanteisiol cael y wybodaeth ddiweddaraf. Awgrymodd HI-D y dylid trafod y mater hwn mewn rhagor o fanylder yn dilyn y cyfarfod i nodi'n gyntaf pa waith ymchwil sydd eisoes wedi'i wneud ar werth economaidd y sector awyr agored a'r rhwydweithiau hawliau tramwy (gweler Cam Gweithredu 3 isod).

Nododd MR safbwynt y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored a'r cysylltiadau sydd wedi datblygu â swyddogion addysg yn ystod cyfnod COVID-19, gan bwysleisio gwerth yr ymgysylltu hwn yn ogystal â gwerth ymgysylltu â darparwyr gweithgareddau awyr agored. Er bod sgyrsiau o'r fath yn digwydd o fewn tîm addysg Llywodraeth Cymru, ni ellir edrych ar y rhain ar eu pen eu hunain ac mae'n rhaid eu rhannu ar draws adrannau a meysydd. Awgrymodd HI-D y dylai PD gysylltu ag unigolion allweddol yn maes hwn gyda'r bwriad o ddrafftio gohebiaeth i'w hanfon at Weinidogion a'r Prif Weinidog (gweler Cam Gweithredu 1 isod).

Tynnodd PF sylw at rôl cymunedau lleol wrth alluogi newid ar lefel llywodraeth leol a chenedlaethol, gan nodi mai cymunedau lleol sy'n adeiladu cymunedau lleol. Wrth i

gapasiti dyfu, bydd hyn yn cynyddu’r cymhellion yn ogystal â chyfranogiad gydol oes yn yr awyr agored, sydd, yn ei dro, yn galluogi newid o genhedlaeth i genhedlaeth.
CC Gofynnwyd a oes gan y sector awyr agored y capasiti i gynnal gweithgareddau awyr agored trwy gyfrwng y Gymraeg, o ystyried bod mwy a mwy o bobl yn dysgu Cymraeg mewn ysgolion a cholegau ac ati?
Nododd PA fod gwaith ymchwil gan Brifysgol Bangor ychydig o amser yn ôl wedi dangos bod canran fechan o hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored Cymraeg eu hiaith o fewn y gweithlu, a dangosodd gwaith ymchwil a wnaed tua 3 blynedd yn ôl fod 25 y cant-30 y cant o ddarparwyr yn gallu cynnal sesiynau gweithgareddau awyr agored drwy gyfrwng y Gymraeg. Aeth PA ymlaen i gyfeirio at waith y Bartneriaeth Awyr Agored a phwysigrwydd darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
Nododd PR y cyfleoedd hyfforddi y mae Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro yn eu cynnig i’w haelodau i’w galluogi i ddeall y Gymraeg yn well, yn enwedig geiriau ac ymadroddion allweddol mewn llawlyfrau ac ar fapiau.

Cyfeiriodd SM at y rhaglen datblygu hyfforddwyr a gynhelir gan Blas Menai, sydd yn sicr yn cynnig cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hefyd, cyfeiriodd SM at yr Urdd a'r cynllun prentisiaeth y maent yn ei gynnig. Roedd ER o'r Urdd ar yr alwad ar ddechrau’r cyfarfod ond roedd wedi gorfod gadael cyn y sgwrs hon.

Awgrymodd HI-D y gallai fod yn fuddiol i Aelodau o’r Senedd drafod mater y Gymraeg a gweithgareddau awyr agored â Gweinidogion. Ychwanegodd CC fod angen gwarchod enwau Cymraeg - mae’n bosibl y bydd enwau hanesyddol, sy'n mynd yn ôl dros ganrifoedd, yn cael eu colli os na chymerir camau i’w gwarchod.

Tynnodd CW sylw at Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau sy'n weithredol yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Mae'n cofnodi enwau Cymraeg a natur hanesyddol yr enwau hynny.

Gofynnodd HI-D i CC a fyddai’n bosibl cynnal dadl meinciau cefn yn y gwanwyn gydag Aelodau o’r Senedd ynghylch nifer o’r materion a drafodwyd. Cytunodd CC y byddai hyn yn hynod fuddiol ac awgrymodd y dylid treulio'r ychydig fisoedd nesaf yn dwyn y materion perthnasol ynghyd (gweler Cam Gweithredu 2 isod).

Nododd HS na ddylid diystyru’r manteision economaidd i gymunedau lleol o ran caffael lleol, cadwyni cyflenwi lleol, cyflogaeth leol, trethi busnes ar ganolfannau awyr agored a trethi lleol ar addysg awyr agored.

Nododd RP fod dilyn dull cydgysylltiedig yn allweddol. Mae ymgysylltu’n lleol yn hynod bwysig, yn enwedig os yw’n digwydd ar sail barhaus ac yn ddatblygiadol drwy gydol gyrfa plentyn yn yr ysgol a phan fydd person yn troi’n oedolyn, gan roi cyfle i'r gymuned gyfan fod yn rhan o'r sector awyr agored naill ai'n broffesiynol neu er eu lles eu hunain.

**5. Crynodeb o'r cyfarfod a chamau gweithredu**

Rhoddodd HI-D grynodeb o uchafbwyntiau'r cyfarfod, gan orffen gyda'r camau gweithredu a ganlyn:

**Cam Gweithredu 1.**Llythyr i'w anfon at Gabinet y Llywodraeth a'r Prif Weinidog i gyfleu pwyntiau allweddol – heriau, cyfleoedd ac atebion i'r materion dan sylw a nodi ein bod yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'i chynorthwyo. Bydd agor sianel gyfathrebu o'r fath yn sicr yn helpu i godi proffil y sector. **Nododd PD mai ond megis dechrau yw'r broses hon, a gellir defnyddio Maniffesto'r Gynghrair Awyr Agored 2021 fel man cychwyn ar gyfer nodi'r pwyntiau allweddol. Pawb i gyfrannu wedyn.**

**Cam gweithredu 2**:Dadl mainc gefn yn y gwanwyn i godi proffil y sector a thynnu sylw at rai o'r pwyntiau a godwyd heddiw. Bydd angen i bawb gysylltu â'u Haelodau perthnasol o'r Senedd i sicrhau eu bod mewn sefyllfa i gyfrannu at y ddadl meinciau cefn. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid roi'r wybodaeth berthnasol i Aelodau o'r Senedd, felly bydd angen defnyddio'r ychydig fisoedd nesaf i dynnu gwybodaeth at ei gilydd. **Pawb i ystyried y materion allweddol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y ddadl a chysylltu â'r Aelodau pertnasol o'r Senedd (bydd cynnwys y llythyr a nodir yng Ngham Gweithredu 1. yn helpu yn hyn o beth). HI-D a CC i nodi amser addas i hyn ddigwydd a sicrhau ei fod yn digwydd**.

**Cam 3**:Diweddaru gwaith ymchwil i werth economaidd a gwerth cymdeithasol y sector awyr agored yng Nghymru a thrafod diweddaru'r gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â gwerth economaidd y rhwydweithiau hawliau tramwy ledled Cymru. **PD i goladu unrhyw waith ymchwil presennol fel man cychwyn. Pawb i gyfrannu.**

Tynnwyd sylw at y dogfennau a ganlyn:

**h#ps://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/06/Role-of-the-voluntary-sector-in-shaping-a-new-economi-i-Gymru.pdf** ;

**h#ps://www.sportandrecrea@on.org.uk/pages/reconomics-plus**

**h#p://www.wato.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/The-Economic-Impact-of-Outdoor-Ac@vity-Twristiaeth-yng-Nghymru-Croeso-Cymru-Mawrth-2014.pdf**

**6. Dyddiad y cyfarfod nesaf - i'w gadarnhau.**